Planning Pembrokeshire's Future

Local Development Plan

Cynllun Datblygu Lleol

Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2 (2017 – 2033)

## Adroddiad Ymgynghori

## Gorffennaf 2025

Cyngor Sir Penfro

# Tabl Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

Pennod 1: Cyhoeddusrwydd a dulliau ymgysylltu ..... 4

- Adroddiad Adolygu ..... 4
- Cytundeb Cyflawni ..... 4
- Strategaeth a Ffefrir ..... 4
- Cynllun Adneuo 1 ..... 5
- Cynllun Adneuo 2 ..... 6

Pennod 2: Nodi'r grwpiau allweddol yn y Cytundeb Cyflawni ..... 20

- Y cyhoedd ..... 20
- Grwpiau nas clywir yn aml ..... 22
- Aelodau Etholedig ..... 23
- Grwpiau rhanddeiliaid ..... 24
- Partneriaethau presennol ..... 25
- 'Cyrff Ymgynghori Penodol' ac 'Adrannau Llywodraeth y DU' ..... 26
- Cyrff ymgynghori cyffredinol ..... 26
- Asiantau cynllunio a datblygwyr a'r rheini sy'n awgrymu tir i'w ddatblygu ..... 27

Pennod 3: Y prif faterion ..... 28

- Adroddiad Adolygu ..... 28
- Ymgynghoriad Cyn Adneuo ..... 28
  - Lefelau twf ..... 28
  - Dosbarthiad gofodol – rhaniad 60% trefol / 40% gwledig ..... 28
  - Mae angen tystiolaeth ychwanegol mewn rhai meysydd ..... 29
  - Newidiadau i'r hierarchiaeth aneddiadau ..... 29
  - Materion yn ymwneud â'r Gymraeg ..... 30
  - Amgylchedd – Newid yn yr hinsawdd, Parthau Perygl Nitradau posibl, systemau draenio cynaliadwy (SDCau), ynni adnewyddadwy ..... 31
  - Darparu safleoedd allweddol ..... 32
  - Mwynau – Adnoddau tywod a graean ..... 32
  - Ymatebion i'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol ac i Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ..... 33
  - Ymatebion i'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol ..... 33
- Cynllun Adneuo 1 ..... 33
- Cynllun Adneuo 2 ..... 35

Pennod 4: Sylwadau hwyr ..... 36

Pennod 5: Tabl Trosi Polisi ..... 37

Pennod 6: Y camau nesaf ..... 38
Atodiadau – Adroddiadau i'r cabinet a'r cyngor ..... 39

## Cyflwyniad

1. Mae'r anghenion deddfwriaethol mewn perthynas â chynnwys yr Adroddiad Ymgynghori wedi'u nodi yn Rheoliad 22(2) y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn ddogfen allweddol sy'n nodi'r trywydd archwilio a'r crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan wrthwynebwyr drwy gydol y broses a dylid ei ddiweddaru yn dilyn y cyfnod adneuo.
2. Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn nodi pwy sydd wedi bod yn rhan o gamau allweddol y broses, crynodeb o'r prif faterion a'r sylwadau a wnaed, ac yn cynnwys argymhellion ynghylch sut y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried y dylid mynd i'r afael â phob sylwadaeth. Mae'r Adroddiad Ymgynghori hefyd yn nodi a fu unrhyw wyriad o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, gan gynnwys esboniad ynghylch pam fu gwyriad a'r goblygiadau.
3. Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys atodiadau sy'n nodi ymatebion i sylwadau a ddaeth i law, ac yn rhoi cyngor pan fo unrhyw newidiadau i'r Cynllun Adneuo yn cael eu cynnig mewn ymateb i hyn. Gelwir y newidiadau hyn yn newidiadau â ffocws, a bydd ymgynghoriad arnynt cyn yr archwiliad. [1]

[1] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/newidiadau-canolbwynteidig

# Pennod 1: Cyhoeddusrwydd a dulliau ymgysylltu

## Adroddiad Adolygu

1. Cyhoeddwyd Adroddiad Adolygu’r cyngor ar 9 Tachwedd 2017 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 5 Ionawr 2018. Ar 19 Mawrth 2018, ystyriwyd adroddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer yr Adroddiad Adolygu gan Gabinet Cyngor Sir Penfro (CSP). Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei gynnwys hefyd yn y papurau yr ymgynghorwyd arnynt yng nghyfnod y Strategaeth a Ffefrir.

## Cytundeb Cyflawni

2. Cafwyd sawl fersiwn o Gytundeb Cyflawni'r cyngor. Cymeradwywyd yr argraffiad cyntaf gan y cyngor fel sail ar gyfer ymgynghoriad ar 6 Tachwedd 2017. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Tachwedd 2017 a 5 Ionawr 2018.

3. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Penfro a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru ar yr achlysuron canlynol:

    - Yr argraffiad cyntaf – wedi'i gymeradwyo gan CSP i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru – 10 Mai 2018.
    - Yr argraffiad cyntaf – wedi’i gytuno gan Lywodraeth Cymru – 7 Mehefin 2018.
    - Yr ail argraffiad – wedi’i gymeradwyo gan CSP – 8 Hydref 2020.
    - Yr ail argraffiad – wedi’i gytuno gan Lywodraeth Cymru – 30 Hydref 2020.
    - Y trydydd argraffiad – wedi'i gymeradwyo gan CSP – 11 Mai 2023.
    - Y trydydd argraffiad – wedi’i gytuno gan Lywodraeth Cymru – 20 Mehefin 2023.
    - Y pedwerydd argraffiad – wedi'i gymeradwyo gan CSP – 18 Gorffennaf 2024.
    - Y pedwerydd argraffiad – wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru – 24 Gorffennaf 2024.

## Strategaeth a Ffefrir

4. Cyhoeddwyd dogfennau Cyn adneuo’r cyngor ar gyfer cyfnod ymgynghori wyth wythnos o hyd, rhwng 17 Rhagfyr 2018 a 4 Chwefror 2019. Roedd y rhain yn cynnwys fel a ganlyn:
    - **Strategaeth a Ffefrir**, a oedd yn nodi gweledigaeth, amcanion a strategaeth twf gyffredinol drafft ar gyfer yr awdurdod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
    - **Adroddiad Adolygu,** a oedd yn nodi pa rannau o'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol y gallai fod angen eu newid a pham.

- Yr **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol,** a nododd sut y cafodd cynigion y Strategaeth a Ffefrir eu hasesu o ran eu heffeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- **Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd,** a asesodd a oedd y Strategaeth a Ffefrir yn debygol o effeithio ar safleoedd Natura 2000 ai peidio. Safleoedd yw'r rhain sydd wedi'u dynodi oherwydd pwysigrwydd eu cynefinoedd a rhywogaethau.
- Dangosodd y **Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol** yr holl safleoedd (dros 450) a gyflwynwyd i'r awdurdod fel rhan o'i alwad am safleoedd ymgeisiol.

5. Rhoddwyd y Strategaeth a Ffefrir a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar wefan[2] yr awdurdod, a rhoddwyd gwybod i bawb ar restr bostio'r awdurdod am yr ymgynghoriad. Gwnaed galwad am safleoedd ymgeisiol ychwanegol ar yr adeg honno hefyd. Wedyn, ychwanegwyd pob safle ymgeisiol a ddaeth i law fel safle ymgeisiol ychwanegol at y gofrestr o safleoedd ymgeisiol.

6. Cyhoeddwyd hysbysiad ffurfiol yn y papur newydd lleol (y Western Telegraph) ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, a chyhoeddwyd datganiad cyffredinol i'r wasg.

7. Rhyddhawyd dau fideo – un animeiddiad ac un 'pen sy'n siarad' – ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y cyngor, ac ar dudalen we'r Strategaeth a Ffefrir. Roedd fersiwn hawdd ei ddeall o'r Strategaeth a Ffefrir ar gael ar-lein ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cyswllt y cyngor hefyd.

8. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys dau weithdy i gynghorau tref a chymuned, a hwyluswyd gan Cymorth Cynllunio Cymru,[3] a gweithdy ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol [4]. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd â'r gweithgor tai fforddiadwy a'r Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr. Cynhaliwyd seminar ieuenctid ar ôl y cyfnod ymgynghori, gyda disgyblion y chweched dosbarth o ysgolion lleol.

## Cynllun Adneuo 1

9. Cyhoeddwyd Cynllun Adneuo 1 i ymgynghori arno am gyfnod o wyth wythnos yn dechrau ar 15 Ionawr 2020, a daeth i ben ar 18 Mawrth 2020. Cyhoeddwyd

---

[2] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/strategaeth-ddewisol
[3] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth Gweler tudalen we yn cynnwys tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol: Adborth o weithdai cynghorau tref a chymuned a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019:Ymgynghoriad Cyn Adneuo
[4] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth Gweler tudalen we yn cynnwys tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol: Adborth o weithdy gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019:Ymgynghoriad Cyn Adneuo

nifer o ddogfennau eraill ar y cyd â'r ymgynghoriad cyntaf ar y Cynllun Adneuo fel y nodir isod:

- Sylfaen dystiolaeth Cynllun Datblygu Lleol 2 (ym mis Ionawr 2020);
- Yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y Cynllun Adneuo. Fersiwn yr ymgynghoriad cyhoeddus – 15 Ionawr 2020 hyd 11 Mawrth 2020;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, dyddiedig Ionawr 2020; a
- Map Cyfyngiadau, yn dangos amryw ddynodiadau a wneir yn annibynnol ar broses y Cynllun Datblygu Lleol.

Penderfynodd y cyngor ar 9 Rhagfyr 2021, yng ngoleuni newidiadau sylweddol ers i'r Ymgynghoriad Adneuo cyntaf ddod i ben ym mis Mawrth 2020, y dylid ail gynnal cam adneuo'r broses o baratoi'r cynllun, yn seiliedig ar gynllun diwygiedig. Roedd y newidiadau sylweddol hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- Diweddarwyd canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar ffosffadau yn 2021. Mae hyn yn effeithio ar y rhannau o ddalgylchoedd afon Cleddau ac afon Teifi nad ydynt yn llanwol, a thros 40% o ardal gynllunio'r cyngor.
- Cyhoeddi 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn 2021.
- Y diweddariadau sy'n gysylltiedig â Pholisi Cynllunio Cymru; a
- Llwyddiant cynnig y Porthladd Rhydd Celtaidd.

## Cynllun Adneuo 2

10. Cyhoeddwyd Cynllun Adneuo 2 ar gyfer ymgynghoriad ar 21 Hydref 2024, yn dilyn oedi a achoswyd gan bandemig COVID-19. Dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd 16 Rhagfyr 2024, am hanner nos. Cyhoeddwyd y cynllun a'r dogfennau cysylltiedig ar wefan y cyngor. Roedd copïau papur ar gael yn Neuadd y Sir, Hwlffordd ac mewn llyfrgelloedd lleol.

11. Anfonwyd datganiad i'r wasg, a gyhoeddwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar 17 Hydref 2024. Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ym mhapur newydd y Western Telegraph ar 16 Hydref 2024.

12. Cyhoeddodd y cyhoeddiadau canlynol erthyglau yn hysbysebu'r cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynllun Adneuo 2:

    a. Y Western Telegraph ar 18 Hydref 2024. Views sought on Pembrokeshire's new Local Development Plan | Western Telegraph
    b. Business News Wales ar 17 Hydref 2024. Plan Overseeing Development in Pembrokeshire needs Public Views before Completion
    c. Pembrokeshire Herald ar 17 Hydref 2024. Plan overseeing development in Pembrokeshire needs public views before completion – The Pembrokeshire Herald
    *d.* Newyddion Yahoo – Hydref 2024*.* Have your say on Pembrokeshire's new Local Development Plan

13. Trefnwyd cyfarfodydd â rhanddeiliaid a chynghorau cymuned/tref fel a ganlyn:

| **Tabl 1 – Cyfarfodydd â rhanddeiliaid a chynghorau cymuned/tref** | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pryd** |
| Cyfarfod cyntaf â rhanddeiliaid Cynllun Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol | 9 Hydref 2024<br>3pm i 4.30pm |
| Cyfarfod cyntaf cyngor cymuned/tref Cynllun Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol | 15 Hydref 2024<br>7pm i 8.30pm |
| Ail gyfarfod cyngor cymuned/tref Cynllun Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol | 16 Hydref 2024<br>7pm i 8.30pm |

14. Cynlluniwyd, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i sesiynau galw heibio â'r gymuned fel a ganlyn:

| **Tabl 2 – Sesiwn galw heibio â'r gymuned** | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Amser** | **Dyddiad (2024)** |
| Canolfan Hamdden Crymych | 3pm – 6pm | Dydd Llun, 21 Hydref |
| Canolfan Hamdden Aberdaugleddau | 3pm – 6pm | Dydd Mawrth, 22 Hydref |
| Canolfan Gymunedol Tredemel | 3pm – 6pm | Dydd Mercher, 23 Hydref |
| Canolfan Hamdden Abergwaun | 3pm – 6pm | Dydd Gwener, 25 Hydref |
| Archifdy Sir Benfro, Prendergast, Hwlffordd | 3pm – 6pm | Dydd Llun, 4 Tachwedd |
| Swyddfeydd Cyngor Tref Doc Penfro | 3pm – 6pm | Dydd Mawrth, 5 Tachwedd |
| Neuadd y Dref Penfro | 3pm – 6pm | Dydd Gwener, 8 Tachwedd |

15. Mae Tabl 3 isod yn rhoi crynodeb o'r ymgynghori a'r ymgysylltu cyn rhoi'r cynllun ar adnau. Mae'n seiliedig ar y dulliau ymgynghori a nodwyd a amlinellir yn adran 3.25 o'r Cytundeb Cyflawni.

| Tabl 3 | Crynodeb o'r ymgysylltu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| Adroddiad Adolygu[5] | • Ystyried casgliadau'r adroddiadau monitro blynyddol.<br>• Adolygu'r sylfaen dystiolaeth allweddol.<br>• Cadw cyswllt ag aelodau.<br>• Cynnig cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau. | • Cynghorwyr<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Y cyhoedd<br>• Rhanddeiliaid<br>• Cynghorau tref a chymuned | • Gweithdai gydag aelodau (Mawrth, Mai a Mehefin 2017, Ionawr a Gorffennaf 2018)<br>• Gweithdy gyda chynghorau tref a chymuned (6 Rhagfyr a 13 Rhagfyr 2017)<br>• Cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol (Cyfoeth Naturiol Cymru 4/12/18 a Dŵr Cymru 16/1/18)<br>• Cyfarfod swyddogion ar y cyd ag APCAP (Tachwedd 2016, Medi 2017, Ionawr, Mehefin a Hydref 2018)<br>• Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus<br>• Rhybudd cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. | • Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol rhwng 9 Tachwedd a 5 Ionawr 2018<br>• Ystyriwyd yr adroddiad a chanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus gan gabinet CSP ar 19 Mawrth 2018.<br>• Dyddiad targed ar gyfer cwblhau – Tachwedd 2017. I'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018 (ochr yn ochr â dogfennau cyn adneuo ar gyfer ymgynghoriad) | ✓ |
| Cytundeb Cyflawni[6] | • Paratoi amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun | • Cynghorwyr<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Rhanddeiliaid | • Roedd Rhifyn 1 yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, rhwng 9 Tachwedd 2017 a 5 Ionawr 2018. | • Cymeradwywyd yr argraffiad cyntaf gan CSP fel sail ar gyfer ymgynghoriad ar 6 Tachwedd 2017. | ✓ |

[5] Adroddiad Adolygu – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/adroddiad-adolygu
[6] Cytundeb Cyflawni gan gynnwys Cynllun Cyfranogiad y Gymuned – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cytundeb-cyflawni-gan-gynnwys-cynllun-cyfranogiad-y-gymuned

| **Tabl 3** | **Crynodeb o'r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | • Datblygu Cynllun Cynnwys Cymunedau<br>• Nodi canllawiau cynllunio atodol allweddol i'w datblygu ochr yn ochr ag adolygiad y cynllun<br>• Ymgysylltu â chynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Ystyried cyfnodau gwaith arfarniad o gynaliadwyedd yn yr amserlen.<br>• Nodi prosesau ymgynghori ar gyfer arfarniad o gynaliadwyedd yng Nghynllun Cynnwys Cymunedau<br>• Cymeradwyaeth gan Gyngor Sir Penfro<br>• Ar ôl ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, | • Cynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Y cyhoedd | • Gweithdy gydag aelodau (Ionawr 2018)<br>• Gweithdy gyda chynghorau tref a chymuned (6 Rhagfyr a 13 Rhagfyr 2017)<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.<br>• Gwybodaeth ar wefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.<br>• Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus.<br>• Dogfen y Cytundeb Cyflawni ar gael i'w gweld mewn canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid a llyfrgelloedd. | • Cymeradwywyd yr argraffiad cyntaf gan CSP i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 10 Mai 2018.<br>• Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Mehefin 2018.<br>• Cymeradwywyd yr ail argraffiad gan CSP ar 8 Hydref 2020.<br>• Cytunodd Llywodraeth Cymru i'r ail argraffiad ar 30 Hydref 2020.<br>• Cymeradwywyd y trydydd argraffiad gan CSP ar 11 Mai 2023.<br>• Cymeradwywyd y trydydd argraffiad gan Lywodraeth Cymru ar 20 Mehefin 2023.<br>• Cymeradwywyd y pedwerydd argraffiad gan CSP ar 18 Gorffennaf 2024.<br>• Cymeradwywyd y pedwerydd argraffiad gan Lywodraeth Cymru ar 24 Gorffennaf 2024. | |

| **Tabl 3** | **Crynodeb o'r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | rhoi gwybod i bob corff ymgynghori penodol, a phob corff ymgynghori cyffredinol y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried eu bod yn briodol, bod y Cytundeb Cyflawni wedi'i ddiwygio.(Rheoliadau 9(4A) a(5), a 10(2)) | | | | |
| Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd[7] | • Adolygu gwybodaeth sylfaenol<br>• Adolygu dangosyddion ac amcanion<br>• Penderfyniad sgrinio ar yr angen am Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)/Asesiad Amgylcheddol | • Ymgyngoreion statudol (CNC a Cadw)<br>• Rhanddeiliaid ehangach â chylch gwaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. | | • Penderfyniad sgrinio ar AoG erbyn mis Tachwedd 2017.<br>• Ymgynghori â chyrff statudol a rhanddeiliaid eraill sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasol ac economaidd ar Adroddiad Cwmpasu'r AoG – Mai 2018. **Cynhaliwyd yr** | ✓ |

[7] Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/gwerthusiad-cynaladwyedd-asesiad-amgylcheddol-strategol

| **Tabl 3** | **Crynodeb o'r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | Strategol ar y cyd ag adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Ymgynghori â chyrff statudol ac ymgyngoreion priodol eraill.<br>• Ystyried ymatebion ac adolygu, os bydd angen.<br>• Cael cymeradwyaeth gan CSP.<br>• Cyhoeddi ar ôl cael cymeradwyaeth. | | | **ymgynghoriad rhwng 26 Gorffennaf a 3 Medi 2018.**<br>• Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. **Cyhoeddwyd y fersiwn derfynol ar ôl yr ymgynghoriad ym mis Hydref 2018.**<br>• Cyhoeddwyd adroddiad AoG cychwynnol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ym mis Rhagfyr 2018.<br>• Cyhoeddwyd adroddiad AoG ar gyfer y Cynllun Adneuo cyntaf ym mis Ionawr 2020.<br>• Cyhoeddwyd adroddiad AoG ar gyfer yr ail Gynllun Adneuo ym mis Medi 2024. | |
| Cyfranogiad cyn adneuo[8] | • Hysbysebu am safleoedd ymgeisiol, gan gynnwys ffurflen a nodyn cyfarwyddyd | • Y cyhoedd, gan gynnwys datblygwyr a pherchnogion tir | • Rhoi gwybod i'r rheini sydd ar gronfa ddata Cynllun Datblygu Lleol CSP.<br>• Rhoi gwybod i'r aelodau drwy e-bost. | • Cyhoeddwyd methodoleg y safleoedd ymgeisiol fel rhan o Sylfaen Dystiolaeth Cynllun Datblygu Lleol 2. Ymgynghoriad rhwng mis | ✓ |

[8] Strategaeth a Ffefrir – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/strategaeth-ddewisol
Safleoedd Ymgeisiol – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/safleoedd-ymgeisiol
Opsiynau Strategol – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

| Tabl 3 | Crynodeb o'r ymgysylltu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | i ategu'r gwahoddiad i gyflwyno cais.<br>• Paratoi meini prawf ar gyfer dewis safleoedd, a chymhwyso'r rhain i bob safle a gyflwynwyd.<br>• Diweddaru'r sylfaen dystiolaeth, ac ystyried goblygiadau'r sylfaen dystiolaeth ddiwygiedig.<br>• Paratoi gweledigaeth ac amcanion strategol.<br>• Paratoi opsiynau strategol a Strategaeth a Ffefrir.<br>• Gwerthuso unrhyw safleoedd a gyflwynwyd yn erbyn y meini prawf ar gyfer dewis safleoedd.<br>• Cynnal arfarniad o gynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir | • Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Pobl ifanc<br>• Sipsiwn a Theithwyr | • Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.<br>• Gwybodaeth ar wefan y cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.<br>• Datganiad i'r wasg i hysbysebu galw am safleoedd ymgeisiol.<br>• Cysylltu â chynghorau dinas, tref a chymuned. (Anfonwyd llythyr/neges e-bost ar 11 Mehefin – ymgynghoriad anffurfiol tan 23 Gorffennaf 2018).<br>• Cyfarfodydd a thrafodaethau (cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ar 21 Tachwedd 2017).<br>• Gweithgorau penodol i bwnc ac ardal.<br>• Gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol (26 Ebrill 2018).<br>• Gweithdy gydag aelodau (16 Gorffennaf 2018).<br>• Seminar ieuenctid (13 Mawrth 2019). | Mehefin a mis Gorffennaf 2018.<br>• Dechrau hysbysebu ar gyfer safleoedd ymgeisiol rhwng mis Mawrth a mis Awst 2018.<br>• Dechrau paratoi'r Strategaeth a Ffefrir – Gorffennaf 2018.<br>• Rhoddwyd cyfle arall i gyflwyno safleoedd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Rhagfyr 2018 – Chwefror 2019.<br>• Cyfle pellach ar gyfer yr unigolion hynny yr effeithiwyd arnynt gan wall cronfa ddata, rhwng Mehefin 2021 a Gorffennaf 2021. | |

| Tabl 3 | Crynodeb o’r ymgysylltu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o’r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | (Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol). Arfarniad o gynaliadwyedd i gwmpasu pob opsiwn os yw wedi'i gynnwys.<br>• Ymgynghori â rhanddeiliaid i ddatblygu Strategaeth a Ffefrir.<br>• Paratoi asesiad o’r effaith cysylltiedig. | | | | |
| Ymgynghoriad Cyn Adneuo[9] | • Cyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir, ochr yn ochr â’r Adroddiad Adolygu, papurau ar y cefndir a phapurau sylfaen dystiolaeth. Arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. | • Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Cynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol | • Gweithgorau ar bynciau a meysydd penodol (cyfarfodydd y Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr ar 5 Mehefin 2018, 30 Ionawr 2019, 3 Hydref 2019). Cyfarfodydd y Gweithgor Tai Fforddiadwy ar 24 Ionawr a 21 Hydref 2019).<br>• Seminar gyda rhanddeiliaid allweddol (19 Gorffennaf 2018). | • Cyhoeddwyd y Strategaeth a Ffefrir, a dogfennau ymgynghori cyn adneuo eraill, ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol rhwng Rhagfyr 2018 a Chwefror 2019.<br>• Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori cychwynnol ym mis Rhagfyr 2019. | ✓ |

[9] Strategaeth a Ffefrir – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/strategaeth-ddewisol
Safleoedd Ymgeisiol – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/safleoedd-ymgeisiol
Opsiynau Strategol – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

| **Tabl 3** | **Crynodeb o'r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | • Cyhoeddi cofrestr o safleoedd ymgeisiol.<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar ddogfennau cyn adneuo.<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br>• Gweithdai aelodau.<br>• Paratoi adroddiad ymgynghori cychwynnol.<br>• Ystyried ymatebion. | • Y cyhoedd | • Seminar gydag aelodau (30 Tachwedd 2018).<br>• Seminar gyda chynghorau dinas, tref a chymuned (18 Gorffennaf 2018, 24 Gorffennaf 2018, Ionawr 2019).<br>• Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus.<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Ymgynghoriad ysgrifenedig.<br>• Copïau o'r Strategaeth a Ffefrir a'r adroddiad AoG cychwynnol yn Neuadd y Sir ac mewn llyfrgelloedd gwasanaethau cwsmeriaid. | • Ymgynghoriad targedig pellach ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir, a dogfennau cyn adneuo, rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2022, oherwydd gwall yn y gronfa ddata. | |
| Y Cynllun Adneuo cyntaf | • Nodi pob dyraniad tir a chynnal unrhyw asesiadau gofynnol.<br>• Cyhoeddi'r Cynllun Adneuo.<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Cynllun Adneuo.<br>• Cyhoeddi ac ymgynghori ar yr AoG/Asesiad Amgylcheddol | • Y cyhoedd<br>• Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Cynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol | • Mae copïau o'r Cynllun Adneuo ar gael yn Neuadd y Sir ac mewn llyfrgelloedd gwasanaethau cwsmeriaid.<br>• Datganiad i'r wasg.<br>• Hysbysiad yn y papur newydd.<br>• Ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd dros y ffôn a/neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu rithwir. | • Cwblhau dogfennau'r Cynllun Adneuo i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2019.<br>• Ymgynghoriad statudol rhwng Ionawr a Mawrth 2020. | ✓ Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 15 Ionawr 2020 a 18 Mawrth 2020. |

| Tabl 3 | Crynodeb o’r ymgysylltu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o’r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | Strategol ar gyfer y Cynllun Adneuo.<br>• Cyhoeddi'r adroddiad ar yr asesiad safle.<br>• Adroddiad sgrinio ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cyhoeddus ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i ategu fersiwn adneuo o Gynllun Datblygu Lleol 2.<br>• Cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddaru o unrhyw bapurau ar y cefndir, papurau sylfaen dystiolaeth ac asesiadau pellach.<br>• Ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid.<br>• Gweithdai pellach gydag aelodau.<br>• Cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r adroddiad ymgynghori cychwynnol. | | | | |

| **Tabl 3** | **Crynodeb o'r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| Yr ail Gynllun Adneuo [10] | • Nodi pob dyraniad tir a chynnal unrhyw asesiadau gofynnol.<br>• Cyhoeddi'r ail Gynllun Adneuo.<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar yr ail Gynllun Adneuo.<br>• Cyhoeddi ac ymgynghori ar yr AoG/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer yr ail Gynllun Adneuo.<br>• Cyhoeddi'r adroddiad ar yr asesiad safle.<br>• Adroddiad sgrinio ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cyhoeddus ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i ategu ail fersiwn adneuo o Gynllun Datblygu Lleol 2. | • Y cyhoedd<br>• Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Cynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol | • Mae copïau o'r ail Gynllun Adneuo ar gael yn Neuadd y Sir ac mewn llyfrgelloedd gwasanaethau cwsmeriaid.<br>• Trefnwyd sesiynau galw i mewn cyhoeddus. (GWELER TABL 2 uchod)<br>• Trefnwyd cyfarfod â rhanddeiliaid. (GWELER TABL 1 uchod)<br>• Trefnwyd cyfarfodydd cyngor cymuned/tref. (GWELER TABL 1)<br>• Datganiad i'r wasg.<br>• Hysbysiad yn y papur newydd.<br>• Ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd dros y ffôn a/neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu rithwir. | • Ymgynghoriad i ddechrau ym mis Hydref 2024 (am o leiaf chwe wythnos). | ✓ Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Hydref 2024 a 16 Rhagfyr 2024. |

[10] [Adneuo – Cyngor Sir Penfro](https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/adneuo) https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/adneuo

| **Tabl 3** | **Crynodeb o'r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | • Cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddaru o unrhyw bapurau ar y cefndir, papurau sylfaen dystiolaeth ac asesiadau pellach.<br>• Ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid.<br>• Gweithdai pellach gydag aelodau.<br>• Cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r adroddiad ymgynghori cychwynnol. | | | | |
| Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio[11] | • Paratoi ymatebion y cyngor i sylwadaeth ar Gynllun Adneuo 2 o Gynllun Datblygu Lleol 2 a'r adroddiadau cysylltiedig. | | | • Mehefin 2025 **(Cyflwyniad rhannol, ddechrau mis Awst 2025)** | Cyflwyno ar ôl cyfarfod y cyngor sir ar 17 Gorffennaf (cyn pen y cyfnod |

[11] Cyflwyniad – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cyflwyno

| **Tabl 3** | **Crynodeb o’r ymgysylltu** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam (Cynllun newydd)** | **Camau** | **Pwy ddylai fod yn rhan o’r broses?** | **Dulliau cyfranogi** | **Dyddiad targed ar gyfer cwblhau a chyhoeddiadau/cyflwyniadau** | **Targed wedi'i gyflawni** |
| | • Adolygiad pellach o’r Cytundeb Cyflawni.<br>• Cyflwyno’r holl ddogfennau angenrheidiol i Lywodraeth Cymru.<br>• Trafod yr amseriadau pendant ar gyfer y camau sy'n weddill â'r arolygydd a benodwyd i archwilio. | | | | llithriant o dri mis) |
| Ymgynghoriad ar y newidiadau â ffocws[12] | • Hysbysiad cyhoeddus<br>• Llythyr at ymgyngoreion<br>• Gwerthuso’r sylwadau a gyflwynwyd. | • Y cyhoedd<br>• Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion mewnol<br>• Cynghorau dinas, tref a chymuned<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol | • Hysbysiad cyhoeddus<br>• Llythyr at ymgyngoreion/ymatebwyr | • Ymgynghoriad ar y newidiadau â ffocws<br>• Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y newidiadau â ffocws | Ar ôl 17 Gorffennaf 2025 |

[12] Newidiadau â Ffocws – Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/newidiadau-canolbwynteidig

## Pennod 2: Nodi'r grwpiau allweddol yn y Cytundeb Cyflawni

### Y cyhoedd

16. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Bydd pawb sy'n gwneud sylwadau ar y cynllun ar unrhyw adeg yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata pobl â diddordeb ac yn cael diweddariadau ar holl adegau allweddol o ddatblygiad y cynllun.

17. *Cyflawnwyd:* Anfonwyd negeseuon e-bost a llythyrau ysgrifenedig at bawb sydd ar y gronfa ddata ar gamau allweddol o ddatblygu'r cynllun. Cyhoeddwyd hysbysiadau cyhoeddus a datganiadau i'r wasg ar adegau priodol. Bydd y rheini a ddewisodd gael gwybod am ymgynghoriadau'r cyngor drwy'r ddolen 'Fy Nghyfrif' hefyd yn cael gwybod yn uniongyrchol.

*Manylion ymgysylltu: Gweler y tabl isod*

| **Tabl 4 – Ymgysylltu â'r cyhoedd** | |
|---|---|
| **Cam** | **Manylion** |
| Adroddiad Adolygu (anstatudol) | Rhybudd cyhoeddus<br>Datganiad i'r wasg<br>Gwefan a chyfryngau cymdeithasol<br>CSP |
| Cytundeb Cyflawni (anstatudol) | Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus.<br>Dogfen Cytundeb Cyflawni ar gael mewn canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd. |
| Ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo, Strategaeth a Ffefrir a'r AoG/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd/Asesiad Priodol (statudol) | Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus.<br>Gwefan a chyfryngau cymdeithasol CSP.<br>Ymgynghoriad ysgrifenedig, gan gynnwys e-gylchlythyrau<br>Copïau o'r Strategaeth a Ffefrir a'r AoG cychwynnol ar gael yn Neuadd y Sir, canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd. |
| Y Cynllun Adneuo cyntaf a'r ail Gynllun Adneuo (statudol) | Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus.<br>Gwefan a chyfryngau cymdeithasol CSP.<br>Copïau o'r cynlluniau ar gael yn Neuadd y Sir, canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd.<br>Sesiynau galw heibio yn seiliedig ar ardal |

| **Tabl 4 – Ymgysylltu â'r cyhoedd** | |
|---|---|
| **Cam** | **Manylion** |
| Sylwadaeth ar y cynnig adneuo. | Gwefan a chyfryngau cymdeithasol CSP.<br>Gwybodaeth ysgrifenedig – lledaenu gwybodaeth drwy'r post a/neu e-bost.<br>Ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd dros y ffôn a/neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu rithwir. |
| Cyflwyno | Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus.<br>Gwefan a chyfryngau cymdeithasol CSP.<br>Cyfathrebu â'r cyhoedd ar-lein a thros y ffôn.<br>Copïau o'r dogfennau mewn lleoliadau allweddol. |
| Newidiadau â ffocws | Hysbysiad cyhoeddus.<br>Llythyrau at ymgyngoreion. |
| Archwiliad | Gwrandawiadau cyhoeddus.<br>Gwefan a chyfryngau cymdeithasol CSP. |

**Cynghorau dinas, tref a chymuned**

18. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Bydd cyfarfodydd penodol i ardal yn cael eu trefnu â chynrychiolwyr cynghorau dinas, tref a chymuned ac aelodau priodol y cyngor ar adegau allweddol wrth baratoi'r cynllun. Bydd y rhain yn rhoi fforwm i drafod y polisïau a chynigion eginol ar gyfer gwahanol ardaloedd y sir.

19. *Cyflawnwyd: Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â chynghorau dinas, tref a chymuned ar gamau allweddol. Gofynnwyd i bob cyngor dinas, tref a chymuned enwebu arweinydd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi cael gwybodaeth benodol am y cynllun, yn ogystal â chlerc y cynghorau dinas, tref a chymuned.*

*Manylion ymgysylltu:*

| **Tabl 5 – Cynghorau dinas, tref a chymuned** | |
|---|---|
| **Cam/dyddiad** | **Manylion** |
| Adroddiad Adolygu | Gweithdai gyda chynghorau tref a chymuned, rhwng 6 Rhagfyr a 13 Rhagfyr 2017 |
| Cytundeb Cyflawni | Gweithdai gyda chynghorau tref a chymuned, rhwng 6 Rhagfyr a 13 Rhagfyr 2017 |
| Ionawr 2018 | Rhoi adborth i gynghorau tref a chymuned, a chais am gynghorydd cyswllt yn ogystal â chlercod. Rhoddodd |

| | |
|---|---|
| | 14 cynghorydd tref a chymuned eu manylion cyswllt.<br>Anfon neges e-bost arall i roi gwybod i'r clerc a'r swyddog cyswllt bod y galw am safleoedd ymgeisiol wedi'i gohirio. |
| Mawrth 2018 | Anfon neges e-bost arall i roi gwybod i'r clerc a'r swyddog cyswllt y gellid cyflwyno safleoedd ymgeisiol rhwng 14 Mawrth a 14 Mehefin 2018 |
| Mai 2018 | Anfon neges arall i roi gwybod i'r clerc a'r swyddog cyswllt bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisiol wedi'i ymestyn i 14 Awst 2018 |
| Cyfranogiad cyn adneuo | Cysylltu â chynghorau tref a chymuned<br>- Anfonwyd llythyrau/negeseuon e-bost ar 11 Mehefin 2018, ymgynghoriad anffurfiol.<br>- 11 Mehefin 2018 i 20 Gorffennaf 2018 – Ymgynghoriad ar 'y fethodoleg ar gyfer asesu'r safleoedd ymgeisiol' |
| Ymgynghoriad Cyn Adneuo | Seminar gyda chynghorau tref a chymuned – 18 a 24 Gorffennaf 2018, Ionawr 2019 ar 'Twf ac Opsiynau Gofodol'.<br>14 a 21 Ionawr 2019 – Gweithdai ar yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. |
| Yr ail Gynllun Adneuo | Trefnwyd cyfarfodydd â chynghorau tref a chymuned ar 15 Hydref a 16 Hydref 2024. |
| Newidiadau â ffocws | Anfonwyd llythyrau a negeseuon e-bost at yr ymgyngoreion. |

## Grwpiau nas clywir yn aml

20. *Nod y Cytundeb Cyflawni:*

- Pobl ifanc – bydd Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd sefydledig yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod sylwadau pobl ifanc yn cael eu hystyried yn y broses. Bydd Seminar Pobl Ifanc, yn tynnu ynghyd disgyblion o ysgolion uwchradd lleol, yn cael ei ddefnyddio hefyd.
- Sipsiwn, Teithwyr a siewmyn teithiol – Mae gan Sir Benfro poblogaeth breswyl gymharol fawr o Sipsiwn a Theithwyr, yn byw ar safleoedd ac mewn tai. Hefyd mae nifer bach o siewmyn teithiol yn y sir. Cyrhaeddir y boblogaeth hon yn bennaf gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu sydd eisoes yn bodoli – sef trwy'r Rheolwr Cynllunio Polisi a Newid (Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro) a thrwy Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro.

21. *Cyflawnwyd:* Cynhaliwyd seminar ieuenctid ym mis Mawrth 2019 i drafod y trywydd a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir a llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo. Nid yw'r Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd yn bodoli mwyach, ac felly nid ydym wedi ymgysylltu a'r grŵp hwnnw.

22. Mae ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi digwydd yn bennaf drwy Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o safleoedd yr awdurdod lleol a chynrychiolydd grŵp cymunedol. Aeth swyddogion i gyfarfodydd y grŵp hwnnw ar 5 Mehefin 2018, 30 Ionawr 2019 a 3 Hydref 2019. Yn ystod y cyfarfodydd, tynnwyd sylw at gyfleoedd i gyflwyno safleoedd ymgeisiol. Cynhaliwyd adolygiad cynnar o'r asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA), a gafodd ei orchwylio gan y grŵp llywio. Mae asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddaru hwn wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo. Cyn dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Adneuo 2 Cynllun Datblygu Lleol 2, fe drefnwyd cyfarfod o'r grwpiau cyfathrebu â Sipsiwn a Theithwyr ar 16 Hydref 2024 i hysbysu'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a rhoi gwybodaeth iddynt, ymlaen llaw am yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys yn Cynllun Datblygu Lleol 2, Cynllun Adneuo 2. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn Neuadd y Sir, ac fe'i cadeiriwyd gan y Pennaeth Tai, ar y pryd, gyda swyddog o'r tîm polisi cynllunio yn bresennol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, gwnaed ymrwymiadau y byddai swyddogion y cyngor sir yn ymweld â phob un o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr awdurdod lleol yn Sir Benfro i drafod materion yn ymwneud â safleoedd a darpariaethau yn y dyfodol â'r trigolion.

23. Gweler y tabl isod am fanylion a lleoliad y cyfarfodydd ar y safle.

| **Tabl 6 – Grwpiau nas clywir yn aml** | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Lleoliad** |
| 25 Tachwedd 2024 | Pontfadlen (bore)<br>Hwlffordd (prynhawn) * |
| 26 Tachwedd 2024 | Cilgeti |
| 27 Tachwedd 2024 | Penfro |

* Er bod cyfarfod wedi'i drefnu i ymweld â safle Hwlffordd, ni chynhaliwyd y cyfarfod ar gais y trigolion ar y safle, oherwydd mater parhaus nad oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

## Aelodau Etholedig

24. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Mae Cynllun Cynnwys Cymunedau yn derbyn bod cyfranogiad aelodau etholedig Cyngor Sir Penfro drwy gydol proses y cynllun yn hollbwysig.

25. *Cyflawnwyd:* Cynhaliwyd seminarau gydag aelodau yn rheolaidd drwy gydol y proses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae pob cam allweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ystyried gan y cabinet a'r cyngor llawn.

26. Yn ogystal â'r cabinet a'r cyngor llawn, mae'r awdurdod wedi cyflwyno dogfennau allweddol i'w Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn-benderfynu i graffu arnynt.

*Manylion ymgysylltu:*

| **Tabl 7 – Aelodau Etholedig** | |
|---|---|
| **Cam/dyddiad** | **Manylion** |
| Adroddiad Adolygu | Gweithdy gydag aelodau<br>- Mawrth, Mai a Mehefin 2017<br>Seminarau gydag aelodau<br>- 14 Mawrth a 22 Hydref 2019 |
| Cytundeb Cyflawni | Seminar/gweithdy<br>- 18 Ionawr 2018<br>- 23 Ebrill 2018 |
| Cyfranogiad cyn adneuo | Rhoi gwybod i'r aelodau drwy e-bost<br>Gweithdy ar 16 Gorffennaf 2018. |
| Ymgynghoriad Cyn Adneuo | Seminar gydag aelodau ar 30 Tachwedd 2018 |
| Yr ail Gynllun Adneuo | |
| 5 Mehefin 2024 | Gweithdy gydag aelodau |
| 10 Mehefin 2024 | Gweithdy gydag aelodau |
| 14 Mehefin 2024 | Gweithdy gydag aelodau |
| 19 Mehefin 2024 | Gweithdy gydag aelodau |
| 26 Mehefin 2024 | Gweithdy'r cyngor ar bolisïau llety twristiaid |

## Grwpiau rhanddeiliaid

27. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Bydd grŵp rhanddeiliaid allweddol yn cael ei sefydlu. Bydd y grŵp hwn yn cynorthwyo gyda pharatoi'r cynllun trwy roi barn gynrychiadol yn ystod ei ddatblygiad, hyd at ac yn cynnwys y Cyfnod Adneuo. Bydd y grŵp yn cael ei ffurfio o swyddogion o'r cyrff sy'n ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, ynghyd ag arbenigwyr achlysurol sydd ag arbenigedd mewn meysydd penodol, os oes angen trafodaeth dechnegol benodol.

28. Fe all grwpiau rhanddeiliaid penodol gael eu sefydlu hefyd yn tynnu ar aelodau'r cyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol, os bydd angen.

29. Pan fo grwpiau partneriaeth presennol eisoes yn cwmpasu'r pynciau dynodedig, fe all cadw cyswllt â'r grwpiau hyn fod yn ddewis yn lle sefydlu grwpiau rhanddeiliaid pwnc.

30. Mewn rhai achosion, fe all cyfarfodydd gael eu cynnal hefyd gyda rhanddeiliaid unigol.

31. *Cyflawnwyd:* Mae grŵp rhanddeiliaid allweddol wedi'i sefydlu. Mae'n cynnwys swyddogion o gyrff Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ac arbenigwyr eraill. Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r grŵp rhanddeiliaid allweddol ar 19 Ebrill 2018, 19 Gorffennaf 2018 a 23 Ionawr 2019.

32. Trefnwyd cyfarfod penodol o asiantau a datblygwyr i ystyried y rhagdybiaethau ynghylch hyfywedd sy'n cefnogi'r Cynllun Adneuo. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 17 Hydref 2019.

33. Mae cyfarfodydd a thrafodaethau penodol hefyd wedi cael eu cynnal â darparwyr allweddol, megis Dŵr Cymru a'r awdurdod priffyrdd lleol.

34. Trefnwyd gweithdai pellach ar gyfer y rhanddeiliaid ar 25 Chwefror 2020 a 9 Hydref 2024.

## Partneriaethau presennol

35. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Pan fo modd, bydd y cyngor yn ceisio cyfuno ei ymgynghoriadau a gweithgareddau Cynllun Datblygu Lleol â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan bartneriaethau eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys:
    - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
    - Panel Busnes Sir Benfro
    - Rhwydwaith Busnes Sir Benfro
    - Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau
    - Bwrdd Partneriaeth Cydgomisiynu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant
    - Partneriaeth Natur Leol
    - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
    - Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd
    - Gweithgor Tai Fforddiadwy
    - Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro
    - Fforwm Cludiant Lleol
    - Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro
    - Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro

36. Y disgwyl yw y bydd gwaith presennol y partneriaethau hyn yn cynorthwyo llywio cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol amgen.

37. *Cyflawnwyd:* Cyflwynwyd trosolwg o broses y Cynllun Datblygu Lleol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ar 21 Tachwedd 2017.

38. Fel y nodir uchod, mae cysylltu wedi digwydd yn rheolaidd â nifer o grwpiau allweddol, gan gynnwys y Gweithgor Tai Fforddiadwy a Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro.

39. Cynhelir cyfarfodydd â Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro bob tri mis, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i rhoi ym mhob cyfarfod. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r grŵp hwn i fynd i gyfarfod

ynghylch hyfywedd penodol ym mis Hydref 2019. Gweler adran i) isod i gael rhagor o fanylion.

40. Cysylltwyd â fforymau eraill pan fo'n briodol ar gyfer darnau penodol o dystiolaeth. Er enghraifft, cyf-welwyd â chysylltiadau Ardal Fenter Dyfrfforddd y Ddau Gleddau, Panel Busnes Sir Benfro a Rhwydwaith Busnes Sir Benfro fel rhan o Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir.  Mae swyddogion o'r Bartneriaeth Natur Leol wedi cynghori ar y broses safle ymgeisiol.

41. Ers i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ddechrau, nid yw rhai grwpiau'n cyfarfod yn weithredol mwyach neu maent wedi newid i fod yn grwpiau eraill.

## 'Cyrff Ymgynghori Penodol' ac 'Adrannau Llywodraeth y DU'

42. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Mae'r ymgyngoreion hyn (y cyfeirir atynt fel Grwpiau B2 a B3 yn Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2015) yn cynnwys y cyrff hynny â chanddynt swyddogaethau penodol sy'n berthnasol i ardal y cynllun, er enghraifft Dŵr Cymru, sef y cyflenwr dŵr lleol. Mae angen i'r awdurdod hefyd ymgynghori ag adrannau Llywodraeth y DU pan fo'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau.
43. Mae'r ymgyngoreion hyn wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar gamau ffurfiol allweddol wrth baratoi'r cynllun. Fe all rhai o'r grwpiau hyn fod yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill hefyd. Gweler Tabl 3 i gael rhagor o fanylion ynghylch pryd yr ymgynghorwyd â'r grwpiau/adrannau hyn.

44. *Cyflawnwyd:* Mae ymgyngoreion wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig ar gamau allweddol wrth gynhyrchu'r cynllun.  Mae nifer o ymgyngoreion hefyd wedi cael gwahoddiad i fynd i grŵp rhanddeiliaid allweddol y cyngor.

## Cyrff ymgynghori cyffredinol

45. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Mae cyrff ymgynghori cyffredinol yn cynnwys cyrff gwirfoddol, y rhai sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, grwpiau crefyddol, ethnig, cenedlaethol neu grwpiau pobl anabl yn ardal y Cynllun, yn ogystal â'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau pobl fusnes a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru.

46. 'Ymgyngoreion eraill' yw'r rheini nad ydynt o angenrheidrwydd yn dod o fewn y categorïau uchod, ond sy'n dal i fod â diddordeb yn ardal y cynllun ac y gall Cynllun Datblygu Lleol effeithio arnynt.

47. Mae'r cyrff hyn wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar gamau ffurfiol (statudol) allweddol. Fe all rhai o'r grwpiau hyn fod yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill hefyd.

48. *Cyflawnwyd:* Mae ymgyngoreion wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig ar gamau allweddol wrth gynhyrchu'r cynllun.  Mae nifer o ymgyngoreion hefyd

wedi cael gwahoddiad i fynd i grŵp rhanddeiliaid allweddol y cyngor neu i ymuno â grwpiau eraill, fel Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro.

## Asiantau cynllunio a datblygwyr a'r rheini sy'n awgrymu tir i'w ddatblygu

49. *Nod y Cytundeb Cyflawni:* Bydd Fforwm Asiantau Cynllunio presennol Sir Benfro, sy'n tynnu ynghyd cynrychiolwyr yr awdurdod cynllunio lleol, datblygwyr lleol, penseiri ac asiantau eraill sy'n gweithio yn Sir Benfro, yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod sylwadau asiantau a datblygwyr yn y sir yn cael eu hystyried wrth baratoi'r cynllun.

50. Bydd cyfle i'r rhai sydd eisiau cyflwyno darnau o dir yr hoffent eu dynodi ar gyfer datblygu neu at ddibenion eraill wneud hynny drwy'r broses safleoedd ymgeisiol. Bydd pawb sy'n cael eu hychwanegu at y gronfa ddata pobl â diddordeb yn cael negeseuon rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar brosesau paratoi'r cynllun.

51. Cyhoeddodd y cyngor alwad ffurfiol am safleoedd ymgeisiol ar 22 Mawrth 2018. Dechreuodd galwad bellach am safleoedd ymgeisiol ar 20 Gorffennaf 2021. Paratôdd y cyngor ffurflen gyflwyno safle ymgeisiol, a nodyn esboniadol byr, i gynorthwyo'r rheini sy'n dymuno cyflwyno safle ymgeisiol. Bwriad y ffurflen safonol yw sicrhau bod digon o ddata'n gysylltiedig â phob cyflwyniad safle ymgeisiol, gan ganiatáu gwneud asesiad cadarn.

52. *Cyflawnwyd:* Fel y nodir uchod, cynhelir cyfarfodydd â Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro bob tri mis, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i rhoi ym mhob cyfarfod. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r grŵp hwn i fynd i gyfarfod ynghylch hyfywedd penodol ym mis Hydref 2019.

53. Mae pawb a gyflwynodd safleoedd ymgeisiol, neu a wnaeth sylwadau ar safleoedd ymgeisiol, wedi cael eu hychwanegu at gronfa ddata'r cyngor. Felly, maent wedi cael neges ysgrifenedig ym mhob cam allweddol o'r broses o ddatblygu'r cynllun.

54. Mae fforymau asiantau cynllunio wedi cael eu cynnal bob tri mis, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf am broses y Cynllun Datblygu Lleol 2 wedi'i darparu. Mae'r rhestr isod yn nodi dyddiadau'r chwe chyfarfod diwethaf:
    - Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023
    - Dydd Iau, 23 Mai 2024
    - Dydd Iau, 12 Medi 2024
    - Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024
    - Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2025
    - Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2025

# Pennod 3: Y prif faterion

## Adroddiad Adolygu

55. Nid oedd unrhyw sylwadau sylweddol ar yr Adroddiad Adolygu wedi dod i law. Roedd yr ymatebion hynny a ddaeth i law yn gefnogol ar y cyfan.

## Ymgynghoriad Cyn Adneuo

56. Nodir y materion pwysicaf isod, ynghyd â'r dull a nodwyd gan y cyngor. Cymeradwyodd Gyngor Llawn Cyngor Sir Penfro y dull hwn ar 9 Mai 2019.[13]

### Lefelau twf

57. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar nifer y tai a gynigiwyd gan yr awdurdod. Er bod nifer fach o ymatebion wedi awgrymu y dylai'r awdurdod ystyried lefelau twf cyffredinol is i ddiogelu'r amgylchedd, ar y cyfan, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai'n cefnogi'r lefel twf a nodwyd neu'n awgrymu y dylid nodi lefel uwch o dwf. Unigolion neu sefydliadau oedd yn hyrwyddo safleoedd penodol i'w datblygu oedd yn tueddu i fod y rheini a oedd yn argymell lefel uwch o dwf. Nododd Llywodraeth Cymru fod y lefelau twf a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yn unol â'r cyfartaleddau adeiladu 10 mlynedd yn Sir Benfro.

58. *Dull Cyngor Sir Penfro: Dim newid arfaethedig i lefel y twf a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r gostyngiad yn y lwfans hyblygrwydd ar gyfer tai o 15% i 10% yn y Cynllun Adneuo.*

### Dosbarthiad gofodol – rhaniad 60% trefol / 40% gwledig

59. Roedd Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig rhaniad o 60% / 40% rhwng y safleoedd trefol / gwledig (safleoedd dros bum uned). Yn fras, mae hyn yn unol â rhaniad y boblogaeth bresennol yn Sir Benfro.

60. Gwrthwynebodd Llywodraeth Cymru y dosbarthiad gofodol arfaethedig, gan awgrymu nad dyma'r strategaeth fwyaf cynaliadwy, gan nodi eu bod yn ystyried y byddai Opsiwn 1, 70% trefol / 30% gwledig yn cyd-fynd yn well ag amcanion Deddf Teithio Llesol drwy hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy. Mae Elusen Cefn Gwlad Cymru hefyd wedi gwrthwynebu ar sail cynaliadwyedd, gan awgrymu y byddai rhaniad o 65% / 35% yn fwy priodol.

61. Mae nifer o wrthwynebwyr wedi cefnogi'r strategaeth ofodol, gan gynnwys Ateb, a nododd fod cynaliadwyedd yn ymwneud â nifer o agweddau, yn ogystal â pha mor hygyrch yw cyfleusterau. *"Heb ddarparu tai newydd mewn aneddiadau fel*

[13] http://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=285&MId=4343&Ver=4&LLL=0

*Treletert, mae risg y byddai problemau o ran fforddiadwyedd yn codi mewn aneddiadau mwy gwledig, a byddai hyfywedd y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli dan fygythiad. Mae angen datblygiad newydd i gefnogi hyfywedd y gwasanaethau hyn".* Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cefnogi'r strategaeth, gan nodi cysondeb o ran y dull gweithredu a ddefnyddir rhwng y ddau awdurdod.

62. *Dull Cyngor Sir Penfro: Dim newid arfaethedig i strategaeth dosbarthu gofodol y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd tystiolaeth ychwanegol yn cael ei chasglu i ddangos pam mai'r rhaniad 60/40 yw'r strategaeth fwyaf priodol ar gyfer Sir Benfro, a sut y gall gyflawni datblygiad cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth am ba mor gyflawnadwy yw safleoedd o feintiau priodol, gwybodaeth am y cyfleoedd a grëir gan dechnoleg newydd a gweithio gartref, yr effeithiau posibl ar yr economi wledig o ddull mwy trefol, a hefyd gwybodaeth am y Gymraeg a'r angen am dai fforddiadwy.*

## Mae angen tystiolaeth ychwanegol mewn rhai meysydd

63. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen i'r awdurdod ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn rhai meysydd pwnc. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws nifer o feysydd technegol i fynd i'r afael â'r sylw hwn a gofynion polisi a chanllawiau cenedlaethol.

64. *Dull Cyngor Sir Penfro: Mae CSP yn cydnabod yr angen i wneud gwaith ymchwil pellach i ddod o hyd i dystiolaeth pellach mewn nifer o feysydd technegol i lywio datblygiad y Cynllun Adneuo ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi asesiad wedi'i ddiweddaru o'r farchnad dai leol, asesiad hyfywedd lleol ac Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir. Bydd asesiad wedi'i ddiweddaru o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn cael ei gynnal i gefnogi'r Cynllun Adneuo.*

## Newidiadau i'r hierarchiaeth aneddiadau

65. Cyhoeddwyd Rhifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018, yn fuan ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyn adneuo (gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn eu hymateb bod rhaid diweddaru unrhyw gyfeiriadau at Bolisi Cynllunio Cymru yn y cynllun a'r sail dystiolaeth ategol i gyfeirio at yr egwyddorion yn Rhifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru, a'u hadlewyrchu, yn benodol trafnidiaeth gynaliadwy sy'n sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd yn lleihau'r angen i deithio ac yn blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

66. *Dull Cyngor Sir Penfro: Cyflwynwyd nifer o ddiweddariadau i'r astudiaeth o'r cyfleusterau gwledig, sy'n llywio'r hierarchiaeth aneddiadau, ym mis Ebrill 2019. Mae'r diweddariadau hyn yn adlewyrchu gwybodaeth a safbwyntiau cyfredol a ddarparwyd gan aelodau, cynghorau dinas, tref a chymuned a'r cyhoedd. Mae'r*

*sgorio hefyd yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus gan Briffyrdd CSP, gan adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2019. Mewn ymateb i Rifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru, ychwanegwyd pwynt newydd sy'n rhoi pwyslais ar aneddiadau sydd â llwybr beicio neu lwybr cyd-ddefnyddio. Mae trothwyon mewn perthynas â phoblogaeth hefyd wedi'u hychwanegu at y sgorio.*

## Materion yn ymwneud â'r Gymraeg

67. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwrthwynebu'r Strategaeth a Ffefrir, ac yn ystyried y dylid mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain fwy gan y gymuned. Maent yn ystyried y dylid ystyried effaith pob opsiwn ar y Gymraeg. Fe wnaethant nodi'r dull Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol fel un cadarnhaol. Maent hefyd yn pryderu mai dim ond mewn ardaloedd lle mae mwy nag 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg y mae Polisi Strategol 17 yn berthnasol, ac yn ystyried y dylai hyn fod yn berthnasol ledled Sir Benfro.

68. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yr *"aneddiadau yng ngogledd y Sir wedi cael eu hadnabod fel ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn bwysig, ond mae'n aneglur sut y mae hyn wedi dylanwadu ar raddfa a dosbarthiad tai yn yr aneddiadau hyn a pha un a gynigir unrhyw gamau i liniaru effeithiau datblygiadau newydd."* O ran datblygu dull ar gyfer y Cynllun Adneuo, maent wedi awgrymu y byddai'r Cynllun Adneuo yn elwa ar asesiadau pellach mewn perthynas â'r Gymraeg.

69. Cynhaliodd CSP arfarniad o gynaliadwyedd ar bob opsiwn a ystyriwyd fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir. Amcan penodol ar gyfer yr arfarniad o gynaliadwyedd (7) yw: Diogelu a gwella rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru. Felly aseswyd pob opsiwn ar sail ei berfformiad yn erbyn yr amcan hwn. Mae'r dull o nodi ardaloedd y sir sydd fwyaf sensitif o ran y Gymraeg yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru. O ran graddfa a dosbarthiad tai yng ngogledd y sir – bydd hyn yn unol â'r hierarchiaeth aneddiadau a chapasiti aneddiadau unigol. Bydd asesiad o safleoedd ymgeisiol unigol yn ystyried graddfa gyffredinol cynnig mewn perthynas â graddfa anheddiad unigol a'r posibilrwydd y gallai hyn effeithio ar y Gymraeg. Mae'r dull aneddiadau 'clwstwr' yn ymgais benodol i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Sir Benfro ac i alluogi datblygu ar raddfa fach mewn aneddiadau lle mae'r Gymraeg yn gryf er mwyn cefnogi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg aros yn eu cymunedau. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach o bentrefi lleol â'r potensial i ddod yn bentrefi lleol clwstwr yn seiliedig ar asesiad wedi'i ddiweddaru o'r cyfleusterau gwledig yn adroddiad Arolwg o'r Cyfleusterau Gwledig ym mis Ebrill 2019. Ni nodwyd unrhyw bentrefi lleol fel pentrefi lleol clwstwr yn seiliedig ar y siaradwyr Cymraeg mewn ardal cyngor cymuned. Felly, er bod CSP yn nodi cyngor Llywodraeth Cymru ar ddull y Cynllun Adneuo, nid oes cyfle wedi

bod i ymgorffori hyn wrth fwrw ymlaen. Bydd cyfleoedd i gymunedau gefnogi Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn y Cynllun Adneuo.

70. *Dull Cyngor Sir Penfro:* Mae CSP yn nodi'r sylwadau a wnaed. Yn ystod yr asesiad o safleoedd ymgeisiol, bydd yr effaith bosibl ar y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth asesu safleoedd o ran eu graddfa a'u lleoliad. Bydd gwaith pellach ar gyfiawnhau'r trothwy o 20% yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo. Bydd cyfeiriad at Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo.

### Amgylchedd – Newid yn yr hinsawdd, Parthau Perygl Nitradau posibl, systemau draenio cynaliadwy (SDCau), ynni adnewyddadwy

71. Awgrymodd Llywodraeth Cymru nad oedd y Strategaeth a Ffefrir yn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cefnogi polisi newydd y Cynllun Datblygu Lleol ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd, ac wedi croesawu ei ddull gweithredu. Mewn cyfarfod â Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror i drafod eu sylwadau, cadarnhaodd swyddogion y llywodraeth y byddai newid i deitl Polisi Strategol 11, gan gyflwyno cyfeiriad penodol at seilwaith gwyrdd yn y polisi, yn hytrach nag yn y cyfiawnhad rhesymegol, yn ddigon i fodloni eu gwrthwynebiad.

72. Mae CNC wedi tynnu sylw at yr angen i sôn am amaethyddiaeth ym Mholisi Strategol 11 i nodi'r posibilrwydd o gyflwyno parthau nitradau. Maent hefyd wedi cefnogi cyfeiriadau at systemau draenio cynaliadwy (SDCau) yn y Strategaeth a Ffefrir. Maent wedi cwestiynu'r dull presennol mewn perthynas â Pholisi Strategol 1, a'i gadernid. Mae CNC wedi codi nifer o gwestiynau technegol manwl mewn perthynas â'r perygl o lifogydd a'r dystiolaeth y mae CSP yn ei chasglu, yn ogystal â rhai sylwadau manwl pellach ar gyfeiriadau yn y testun.

73. O ran ynni adnewyddadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi codi nifer o faterion technegol ynghylch sylfaen dystiolaeth y cynllun. Trafodwyd y rhain mewn cyfarfod â swyddogion, a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i gefnogi dull y Cynllun Adneuo cyn ei gyhoeddi.

74. *Dull Cyngor Sir Penfro: Pan fyddai'r newidiadau arfaethedig gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gwella eglurder neu gadernid, byddant yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adneuo. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar y grŵp llywio ar gyfer yr asesiad strategol o ganlyniadau llifogydd sy'n cael ei lunio, a byddant hefyd yn ymgynghorai allweddol ar y safleoedd ymgeisiol. Bydd hyn yn golygu y byddant yn cynorthwyo gyda'r ymdrechion i sicrhau yr ymdrinnir â'r problemau yn ymwneud â llifogydd yn briodol yn y Cynllun Adneuo.*

## Darparu safleoedd allweddol

75. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y sylwadau canlynol ar safleoedd tai strategol:

*“Mae darparu tai’n ddibynnol ar ddyrannu tai gan yr awdurdod sydd at ei gilydd yn rhai y gellir eu darparu ac yn unol â’i strategaeth ofodol. Mae'r awdurdod yn cydnabod, “yn hanesyddol nid yw rhai Safleoedd Tai Strategol mawr wedi cael eu datblygu. Mae safleoedd bach a chanolig yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gerbron gan y farchnad dai leol” (tudalen 21). Os yw’r awdurdod yn cynnig cynnwys safleoedd tai strategol yn y Cynllun Adneuo, rhaid i dystiolaeth ddangos y gellir eu darparu. Nid yw’r pedwar safle mawr yn Slade Lane North, Slade Lane South, Maesgwynne a Shoals Hook Lane, a grynhoir yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017/18, yn dangos rhyw lawer o gynnydd o ran darparu unedau ar lawr gwlad. Bydd ar y safleoedd hyn angen cyfiawnhad pellach i aros yn y cynllun.”*

76. Mae'r cyngor yn gwbl ymwybodol o'r angen i ddangos bod modd darparu ei ddyraniadau tai. Mae gwaith eisoes ar y gweill drwy wahanol gomisiynau, y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n mynd rhagddynt, a’r asesiad o safleoedd ymgeisiol er mwyn sicrhau bod y dyraniadau hynny a nodwyd yn y Cynllun Adneuo yn briodol a bod modd eu darparu.

77. *Dull Cyngor Sir Penfro: Mae Cyngor Sir Penfro yn nodi sylwadau'r llywodraeth ar y gallu i ddarparu. Bydd CSP yn cynnal asesiadau safle o safleoedd ymgeisiol yn unol â'r dull o asesu safleoedd ymgeisiol a gyhoeddwyd a'r canllawiau yn llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r strategaeth 60/40 wedi'i nodi'n rhannol fel dull o sicrhau y gellir dyrannu safleoedd priodol, ac y gellir eu darparu yn y Cynllun Adneuo.*

## Mwynau – Adnoddau tywod a graean

78. Nododd Llywodraeth Cymru yn eu hymateb fod diffyg darpariaeth o gronfeydd tywod a graean yn rhanbarth Gorllewin Cymru, ac y dylai’r awdurdodau hyn gydweithio i fynd i’r afael â’r diffyg a nodi safleoedd penodol. Mae'r cyngor hefyd wedi cael gwybod bod y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau ar gyfer De Cymru yn cael ei ail adolygu ar hyn o bryd.

79. Cafodd galwad ddiweddaraf CSP am safleoedd ymgeisiol, fel rhan o'r ymgynghoriad cyn adneuo, ei hysbysebu'n eang a'i hamlygu i berchnogion tir a gweithredwyr cyfredol chwareli. Mae tri safle ymgeisiol ychwanegol bellach wedi'u cynnig ar gyfer tywod a graean – dau gan CSP fel perchennog tir ac un gan weithredwr cyfredol chwarel. Bydd y rhain yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses o asesu safleoedd ymgeisiol.

80. *Dull Cyngor Sir Penfro: Mae CSP wedi nodi'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg cronfeydd tywod a graean rhanbarthol yn yr Adroddiad Adolygu a'r Strategaeth a Ffefrir. Mae safleoedd ymgeisiol wedi cael eu hasesu fel rhan o baratoi'r*

*Cynllun Adneuo, a bydd CSP yn parhau i gydweithio'n rhanbarthol ar y mater hwn.*

## Ymatebion i'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol ac i Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

*81.* Nid oedd unrhyw sylwadau sylweddol ar yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd ac i Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dod i law.

## Ymatebion i'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol

82. Fe wnaeth yr ymgynghoriad gan y cyhoedd ynghylch safleoedd i'w datblygu, neu eu diogelu, ennyn diddordeb sylweddol mewn rhai ardaloedd. Ymhlith y mannau lle cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion oedd Haven Road a Douglas James Way yn Hwlffordd, Tregwilym Ddwyrain, Hook, Penalun, Pentlepoir, Wooden a Maes y Santes Fair yn Abergwaun. Roedd tuedd i gael ymatebion o gefnogaeth gan hyrwyddwr safle, gyda thrigolion lleol yn tueddu i wrthwynebu am wahanol resymau, gan gynnwys mynediad, tirwedd, capasiti'r system garthffosiaeth, diffyg gwasanaethau, ymhlith materion eraill.

## Cynllun Adneuo 1

83. Cyhoeddwyd Cynllun Adneuo 1 i ymgynghori arno am gyfnod o wyth wythnos yn dechrau ar 15 Ionawr 2020, a daeth i ben ar 18 Mawrth 2020. Penderfynodd y cyngor ar 9 Rhagfyr 2021, yng ngoleuni newidiadau sylweddol ers i'r Ymgynghoriad Adneuo cyntaf ddod i ben ym mis Mawrth 2020, y dylid ail gynnal cam adneuo'r broses o baratoi'r cynllun, yn seiliedig ar gynllun diwygiedig. Roedd y newidiadau sylweddol hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- Diweddarwyd canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar ffosffadau yn 2021. Mae hyn yn effeithio ar y rhannau o ddalgylchoedd afon Cleddau ac afon Teifi nad ydynt yn llanwol, a thros 40% o ardal gynllunio'r cyngor.
- Cyhoeddi 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn 2021.
- Y diweddariadau sy'n gysylltiedig â Pholisi Cynllunio Cymru; a
- Llwyddiant cynnig y Porthladd Rhydd Celtaidd.

84. Cafodd datblygiad Cynllun Adneuo 2 ei lywio hefyd gan y sylwadau a ddaeth i law ar Gynllun Adneuo 1.

## Cynllun Adneuo 2

85. Mae'r cyngor wedi ymateb i'r holl sylwadau a ddaeth i law a gellir eu gweld yn yr atodiadau i'r adroddiad ymgynghori hwn, ynghyd ag ymatebion swyddogion. Mae'r ymatebion yn cwmpasu cyfeiriadau perthnasol at y Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau eraill; pwy yw'r cynrychiolwyr; crynodeb o'r sylw(adau); y newid a geisir gan y rheini sy'n cyflwyno'r sylwadau ac argymhellion y cyngor, gan gynnwys eu rhesymau.

86. Mae'r atodiadau hyn yn ddetholiadau o adroddiad y Pennaeth Cynllunio i gyfarfod cabinet y cyngor ar 2 Mehefin 2025 a chyfarfod y cyngor ar 17 Gorffennaf 2025.

87. Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio i *"ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau bach pellach y mae eu hangen ar y dogfennau, cyn eu cyflwyno i'w harchwilio a chyn ymgynghori arnynt fel rhan o'r ymgynghoriad ar y newidiadau â ffocws."* Y prif faterion a nodwyd mewn perthynas â'r sylwadau a ddaeth i law yn **nhrefn yr wyddor** yw'r canlynol:

**Tabl 8 Prif faterion Cynllun Adneuo 2**

| | Mater | Cyfeirnod yn Atodiad 4 |
|---|---|---|
| 1. | **Dosbarthiad Tir Amaethyddol** – a yw polisi cenedlaethol wedi'i gymhwyso'n gywir? | 4.1 |
| 2. | **Clunderwen:** A oes darpariaeth briodol wedi'i gwneud ar gyfer tai yn y pentref? | 4.4 |
| 3. | **Crundale** – gyferbyn â Woodholm Close: A yw maint y safle dyrannu wedi'i ddangos yn briodol? | 4.5 |
| 4. | A yw'r **polisïau a'r darpariaethau o ran Sipsiwn a Theithwyr** yn briodol ar gyfer ardal y cynllun? | 4.6 |
| 5. | A yw graddfa'r ddarpariaeth wedi'i nodi'n gywir ar gyfer Slade Lane, **Hwlffordd** S/HSG/040/LDP2/6? A yw'r ddarpariaeth tai fforddiadwy wedi'i gosod ar lefel briodol; ac, a ddylid bod wedi paratoi asesiad o hyfywedd y safle allweddol? | 4.8 |
| 6. | A yw'r cynllun yn mabwysiadu dull priodol o ran darparu **tai fforddiadwy**, **tai â chymorth**, **cymysgedd o dai, a safonau gofod** yn fwy cyffredinol? | 4.9 |
| 7. | A yw'r ddarpariaeth dai ar gyfer **Jeffreyston** yn briodol? | 4.10 |
| 8. | A yw **Llan-teg/Llanteglos** wedi'u nodi'n gywir fel pentrefi gwasanaethau? | 4.12 |
| 9. | A yw'r gyfres o safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn ddarpariaeth briodol o dai ar gyfer **Aberdaugleddau**? | 4.14 |
| 10. | A yw dosbarthiad gofodol o ddyraniadau tai ym **Mhenfro a Doc Penfro** yn unol â'r hierarchiaeth aneddiadau? | 4.17 |

| | **Mater** | **Cyfeirnod yn Atodiad 4** |
|---|---|---|
| 11. | A yw fframwaith y cynllun a'r canllawiau ategol ar gyfer ystyried **llety ar gyfer ymwelwyr** yn briodol ac yn addas i'r diben? | 4.23 |

## Pennod 4: Sylwadau hwyr

88. Yn y Cytundeb Cyflawni mae'r cyngor yn datgan y canlynol:
*“Bydd safiad y cyngor yn gadarn ar derfynau amser a rhaid gwneud holl sylwadau erbyn y dyddiad cau penodedig. Caiff sylwadau hwyr eu derbyn yn gyfan gwbl yn ôl disgresiwn y cyngor. Pan fo sylwadaeth yn hwyr, bydd y cyngor yn caniatáu iddo aros yn unig pan fo tystiolaeth yn cael ei rhoi i ddangos sut y gwnaed ymgais wirioneddol i gyflwyno cyn y terfyn amser. Fel arall, caiff y broses ei hoedi gan gosbi'r rheini a gyflwynodd yn brydlon.”*

89. Roedd yr holl sylwadau wedi dod i law mewn pryd, neu os oeddent yn hwyr, fe'u derbyniwyd gan y cyngor yn unol â'i ddull cyhoeddedig mewn amgylchiadau o'r fath.

## Pennod 5: Tabl Trosi Polisi

| Rhif Polisi y Strategaeth a Ffefrir | Rhif Polisi y Cynllun Adneuo |
|---|---|
| SP 1 Creu Mannau Cynaliadwy | SP 1 Creu Mannau Cynaliadwy |
| SP 2 Gofynion Tai | SP 2 Gofynion Tai |
| SP 3 Targed Tai Fforddiadwy | SP 3 Targed Tai Fforddiadwy |
| | POLISI NEWYDD – SP 4 Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol |
| SP 4 Cefnogi Ffyniant | SP 5 Cefnogi Ffyniant |
| SP 5 Hierarchiaeth Aneddiadau | SP 6 Hierarchiaeth Aneddiadau |
| SP 6 Ffiniau Aneddiadau | SP 7 Ffiniau Aneddiadau |
| SP 7 Prif Drefi | SP 8 Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac Aneddiadau Trefol |
| SP 8 Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaethu a Phentrefi Gwasanaeth | SP 9 Canolfannau Gwasanaethu a Phentrefi Gwasanaeth |
| SP 9 Pentrefi Lleol | SP 10 Pentrefi Lleol |
| SP 10 Cefn Gwlad | SP 11 Cefn Gwlad |
| SP 11 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd | SP 12 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol |
| SP 12 Datblygu yn ymwneud a Phorthladdoedd ac Ynni | SP 13 Datblygu yn ymwneud a Phorthladdoedd ac Ynni a'r Porthladd Rhydd Celtaidd |
| SP 13 Darpariaeth Tir Cyflogaeth | SP 14 Darpariaeth Cyflogaeth Strategol |
| | POLISI NEWYDD – SP 15 Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Strategol Presennol |
| SP 14 Hierarchiaeth Manwerthu | SP 16 Hierarchiaeth Manwerthu |
| SP 15 Economi Ymwelwyr | SP 17 Economi Ymwelwyr |
| SP 16 Mwynau | SP 18 Mwynau at Ddibenion Heblaw Ynni |
| SP 17 Y Gymraeg | SP 19 Y Gymraeg |
| SP 18 Seilwaith Trafnidiaeth a Hygyrchedd | SP 20 Seilwaith Trafnidiaeth a Hygyrchedd |
| SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff | SP 21 Atal a Rheoli Gwastraff |
| | |
| GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol | GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol |
| GN 2 Dylunio Cynaliadwy | GN 2 Dylunio Cynaliadwy |
| GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd | GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd |
| GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel |
| GN 5 Datblygiad Mewnlenwi mewn Pentrefannau | Polisi wedi'i ddileu |
| | POLISI NEWYDD – GN 5 Ynni Adnewyddadwy – Targed a Dyraniadau |

## Pennod 6: Y camau nesaf

90. Mae'r tabl isod yn nodi'r camau yn y broses ac ar ba gam y mae’r broses o baratoi'r cynllun arno ar hyn o bryd.

**Rydym yma** →

| *Cyfnod allweddol* | *Amseriadau pendant ac arwyddol* |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu | Dechreuwyd paratoi ym mis Mai 2017, gyda’r ddogfen i’w chyhoeddi ar gyfer ymgynghori anffurfiol ym mis Tachwedd 2017, ochr yn ochr â’r Cytundeb Cyflawni. |
| Cytundeb Cyflawni | Dechreuodd y paratoadau ym mis Mai 2017, ac roedd y ddogfen wedi'i chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Tachwedd 2017. |
| Strategaeth a Ffefrir | Dechreuodd y paratoadau ym mis Gorffennaf 2018, a chyhoeddwyd y ddogfen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol erbyn mis Rhagfyr 2018. |
| Y Cynllun Adneuo cyntaf | Dechreuodd y paratoadau ym mis Ebrill 2019, a chyhoeddwyd y ddogfen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Ionawr 2020. |
| Cytundeb Cyflawni | Cymeradwywyd y fersiwn ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024. |
| Yr ail Gynllun Adneuo | Cyhoeddwyd y ddogfen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Hydref 2024. |
| Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Yn rhannol ym mis Awst 2025/yn llawn erbyn mis Medi 2025 |
| Ymgynghoriad ar newidiadau â ffocws a’r adroddiad ar yr ymgynghoriadau | Disgwylir ddydd Llun, 4 Awst a hanner nos, ddydd Llun, 15 Medi 2025 i ymgynghori arnynt. Adroddiad yr ymgynghoriad erbyn 22 Medi 2025. |
| Archwiliad | Disgwylir dechrau’r archwiliad ym mis Hydref 2025 |
| Cyhoeddi adroddiad yr arolygydd | Medi 2026 |
| Mabwysiadu | Disgwylir tua mis Hydref neu fis Tachwedd 2026 |

## Atodiadau – Adroddiadau i'r cabinet a'r cyngor

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Yn darparu mynegai o sylwadaethau, a ble'r ymdrinnir â phob sylwadaeth.<br><br>Yn darparu Cyfrif o Sylwadau o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Adneuo 2 Cynllun Datblygu Lleol 2 yn ôl math o sylwadaeth, ac yn ôl cyfeirnod polisi neu ddogfen. |
| Atodiad 2 | Yn cynnwys 'Adroddiadau o Sylwadaethau' a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn nhrefn y cynllun, ac yna 'Adroddiadau ar Sylwadaethau' ar y ddogfennaeth ategol ac ymateb arfaethedig. |
| Atodiad 3 | Yn cynnwys sylwadau a ddaeth i law gan adrannau mewnol ar y cynllun, ac yna sylwadau ar ddogfennaeth ategol ac ymateb arfaethedig. |
| Atodiad 4 | Mae'r atodiad hwn yn cynnwys cyfres o 'bapurau ar faterion' a baratowyd ar feysydd pwnc neu aneddiadau neu leoliadau penodol pan godwyd materion, ac roedd goblygiadau ar draws sawl maes polisi, neu efallai bod sawl sylw wedi dod i law ar un maes polisi neu anheddiad yr oedd angen delio â nhw gyda'i gilydd neu yr oedd angen dadansoddiad mwy manwl arnynt. Mae'r papurau hyn ar faterion hefyd yn cynnwys sylwadau a ddaeth i law drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus neu gan adrannau mewnol.<br><br>Sylwer hefyd fod y papur ar fater economi ymwelwyr yn cynnwys y sylwadau a ddaeth i law ar y canllawiau cynllunio atodol ar gyfer carafanau a gwersylla a oedd hefyd yn destun ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgynghori. |